Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

## CYFARFOD ARBENNIG

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Iau, 20fed Gorffennaf, 2023 |
| **AMSER** | 10.00 y.b. |
| **LLEOLIAD** | Cyfarfod Rhithiol |
| **PWYNT CYSWLLT** | Rhodri Jones<br>01286 679256<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig Siencyn | Arweinydd y Cyngor |
| Nia Wyn Jeffreys | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Beca Brown | Aelod Cabinet Addysg |
| Berwyn Parry Jones | Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Elin Walker Jones | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Menna Trenholme | Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG: YMRWYMIADAU O DDYRANIAD GWYNEDD<br><br>Mae Atodiadau 1 a 2 ar wahân ar gyfer Aelodau'r Cabinet yn unig.<br><br>Mae'r ddau atodiad yn eithriedig o dan paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion Ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).<br><br>Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r atodiadau i'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r yr ymgeiswyr ac yn | Cyng. Dyfrig Siencyn | Dylan Griffiths (Rheolwr Gwasanaeth Datblygu'r Economi)) and Siwan Lisa Evans (Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd)) | 6 - 13 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | tanseilio hyder rhai eraill i rannu gwybodaeth sensitif ar gyfer ystyriaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau . Am y rhesymau yma rwy'n fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus. | | | |
| 6 | PENNAETH CYNORTHWYOL TRAFNIDIAETH | Cyng. Dyfrig Siencyn | Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr) | 14 - 16 |
| 7 | CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).<br><br>Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol a masnachol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth o'r fath heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiad yn benodol ynglŷn a materion ariannol a busnes ynghyd a thrafodaethau cysylltiedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau yr allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau yma rwy'n fodlon fod y mater yn gaeedig er y budd cyhoeddus. | | | |
| 8 | CANOLFAN IECHYD A LLES BANGOR<br><br>(Dogfennau I Aelodau'r Cabinet yn unig) | Cyng. Dyfrig Siencyn | Llŷr Beaumont Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned) and Lowri Roberts (Rheolwr Stadau, Adran Tai ac Eiddo) | |

Eitem 5

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Gorffennaf 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn<br>Arweinydd y Cyngor |
| **Swyddog cyswllt:** | Dylan Griffiths<br>Rheolwr Gwasanaeth Datblygu'r Economi<br>Siwan Evans<br>Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd |
| **Manylion cyswllt:** | dylanrhysgriffiths@gwynedd.llyw.cymru<br>01286 679611 \| MSTeams<br>siwanlisaevans@gwynedd.llyw.cymru<br>01286 679394 \| MSTeams |
| **Teitl yr Eitem:** | CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN Y DG:<br>YMRWYMIADAU O DDYRANIAD GWYNEDD |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cytuno i ymrwymo cyfanswm o £21,352,966 o ddyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG i'r cynlluniau a restrir yn Atodiad 1 yr adroddiad yn unol â'r symiau nodir.

1.2. Awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol, Pennaeth Cyllid a'r Prif Weithredwr, i awdurdodi rhyddhau llythyrau cynnig i'r cynlluniau yn ddarostyngedig i gwblhau gwiriadau terfynol a derbyn sêl bendith Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd i unrhyw amodau arbennig.

1.3. Cytuno i sefydlu pedair Cronfa Galluogi (gyda cyfanswm cyllideb o £6,131,000) i ddosbarthu symiau llai o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin i fentrau a chymunedau'r sir gan awdurdodi gweithredu tair cronfa dan reolaeth Cyngor Gwynedd.

1.4. Gofyn i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gynnal ymchwiliad i'r maes gwaith gefnogi mentrau cymunedol / cymdeithasol er cynyddu dealltwriaeth y Cyngor a sicrhau fod ymdrechion sefydliadau yn cydweddu ac yn ategu ei gilydd.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Yng Nghabinet 24 Ionawr 2023 (eitem 6), sefydlwyd gweithdrefn ar gyfer gweinyddu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yng Ngwynedd a phenderfynu ar geisiadau am arian o'r Gronfa o fewn y sir.

2.2. Sefydlwyd 'Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd' (yn cynnwys Arweinydd ac Is Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet Cyllid, y Prif Weithredwr, Pennaeth Economi a Chymuned, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol) i gadarnhau pa gynlluniau fydd yn cael eu dewis i dderbyn arian.

2.3. Nodwyd y byddai'r Aelodau Etholedig ar y Panel yn eithrio eu hunain o drafod cynllun wedi ei leoli o fewn eu hetholaeth neu ble mae buddiant personol yn y cais. Nodwyd hefyd y dylid ystyried cyfeirio sefyllfa o'r fath i'r Cabinet am benderfyniad er sicrhau priodoldeb a thryloywder.

2.4. Yn unol â'r uchod, mae'r Panel wedi penderfynu cyfeirio eu hargymhellion ynglŷn â pha gynlluniau dylid eu dewis i dderbyn arian i sylw'r Cabinet am benderfyniad.

## 3. CYFLWYNIAD

3.1. Cyhoeddwyd prosbectws Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG (UKSPF) ar 13 Ebrill 2022. Bydd y Gronfa yn dosbarthu £2.6 biliwn o gyllid ar draws y DG erbyn Mawrth 2025.

3.2. Bydd pob rhan o'r DG yn derbyn rhan o'r arian gyda'r cyllid wedi ei ddethol i ardaloedd unigol ar sail fformiwla.

3.3. Yn Lloegr, bydd y cyllid yn mynd yn uniongyrchol i siroedd unigol i'w ddefnyddio neu ddosbarthu i sefydliadau eraill. Yng Nghymru, mae'n ofynnol i ardaloedd lleol gydweithio gydag eraill o fewn eu rhanbarth (Gogledd Cymru yn achos Gwynedd) a bod un 'awdurdod arweiniol' yn atebol am yr arian ar ran rhanbarth. Cyngor Gwynedd yw'r 'awdurdod arweiniol' ar gyfer Gogledd Cymru.

3.4. Dyraniad Gwynedd ar gyfer y cyfnod hyd at Fawrth 2025 yw <u>£24.4 miliwn</u>. Mae £2.9 miliwn o'r cyfanswm wedi ei warchod i gefnogi oedolion wella eu sgiliau rhifedd[1] (y Rhaglen Lluosi / Multiply) gyda gweddill y dyraniad (£21.5 miliwn) ar gael i flaenoriaethau eraill y Gronfa ac i'w reoli / gweinyddu (SPF Craidd).

3.5. Mae'r dyraniad i Wynedd yn rhan o £126.46 miliwn sydd wedi ei ddyrannu i siroedd Gogledd Cymru. Dylid nodi fod y dyraniad ar gyfer y cyfnod yn ei gyfanrwydd, ond yn flynyddol mae Llywodraeth y DG yn cadarnhau'r cyllid. Yn ymarferol, dylid hefyd nodi y <u>bydd angen i gynlluniau sy'n derbyn arian o'r Gronfa gwblhau eu gweithgaredd</u>

[1] Mae'r swm yma wedi gostwng £1.3 miliwn yn dilyn penderfyniad gan Llywodraeth y DG i ganiatáu ail gyfeirio'r swm i rhannau eraill y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

erbyn diwedd 2024 i ganiatáu cau'r Gronfa mewn da bryd cyn 31 Mawrth 2025.

3.6. Er bod pwyslais ar gydweithio rhanbarthol yng nghyd-destun yr UKSPF, gwneud gwahaniaeth i fywydau trigolion *lleol* yw'r perwyl ac roedd pob sir yng Ngogledd Cymru yn gytûn:

- fod angen i ardaloedd elwa yn unol â gwerth eu dyraniad unigol;
- mai mater i ardaloedd lleol yw penderfynu ar ddefnydd eu dyraniad; ac,
- fod angen i ardaloedd lleol ddewis bod yn rhan o gynlluniau sy'n dymuno gweithredu ar draws siroedd.

## Y drefn ymgeisio

3.7. Cytunodd siroedd y Gogledd mai drwy grantiau cystadleuol dylid dyrannu'r arian yn arferol (gyda disgresiwn i siroedd unigol ddewis defnyddio'r dulliau amgen petai'r angen yn codi).

3.8. I sicrhau cysondeb, i leihau'r gost gweinyddu ac i ganiatáu cynlluniau weithredu ar draws un neu fwy o siroedd, sefydlwyd un drefn ymgeisio ar gyfer yr SPF yng Ngogledd Cymru.

3.9. Er mwyn rhesymoli'r nifer o gynlluniau yn derbyn arian SPF yn uniongyrchol, cytunodd siroedd y Gogledd hefyd dylai cynlluniau fod yn ceisio £250,000 neu fwy o arian SPF yn y lle gyntaf i fod yn gymwys.

3.10. Yn gyfochrog, er mwyn dethol symiau o dan £250,000 o arian SPF i fentrau a chymunedau, sefydlwyd y cysyniad o greu 'Cronfeydd Galluogi' i ganiatáu cynlluniau llai elwa o'r SPF (wele adran 3.22 isod).

3.11. Mae manylion y drefn ymgeisio ar gael ar wefan y Cyngor, ond dyma amlinelliad o'r prif gamau yn y drefn:

Cam un
Ymgeiswyr yn cyflwyno ceisiadau cryno (Cam 1) yn amlinellu eu cynllun.

Cam dau
Siroedd i asesu ceisiadau cryno a blaenoriaethu cynlluniau

Cam tri
Cynlluniau wedi eu blaenoriaethu yn cyflwyno cais manwl (Cam 2)

Cam pedwar
Siroedd i asesu ceisiadau manwl a chadarnhau pa gynlluniau fydd yn derbyn arian

Cam pump
Rhyddhau cytundeb ariannu ffurfiol i ymgeiswyr sydd wedi eu dewis.

3.12. Cynhaliwyd cyfle i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau cryno yn ystod Ionawr / Chwefror 2023.

3.13. Daeth 114 o geisiadau cryno i law ar gyfer cynlluniau yn dymuno gweithredu yng Ngwynedd (45 yn dymuno gweithio yng Ngwynedd yn unig a 69 yn dymuno gweithredu ar draws mwy nac un sir gan gynnwys Gwynedd). Roedd y cynlluniau yn dymuno cyfanswm o £2.56 miliwn o arian Lluosi/Multiply (87% o ddyraniad Lluosi/Multiply Gwynedd) a £49.2 miliwn o arian SPF Craidd (237% o ddyraniad SPF Craidd Gwynedd).

## Y drefn dewis a dethol ceisiadau

3.14. Yn unol â'r drefn sefydlwyd gan y Cabinet yn Ionawr 2023, dilynwyd y camau canlynol i ddewis a dethol o ymhlith y ceisiadau cryno ddaeth i law:

1. Gwiriwyd yr holl geisiadau i law gan swyddogion y Cyngor i wirio fod yr ymgeisydd a'r gweithgaredd arfaethedig yn gymwys.
2. Cynhaliwyd gweithdy ar y 24ain o Fawrth 2023 gydag aelodau 'Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd' - yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector - i asesu'r ceisiadau unigol yn erbyn y meini prawf cyhoeddedig gan flaenoriaethu cynlluniau fyddai'n briodol / dymunol eu cefnogi.
3. Gwriwyd asesiadau'r Grŵp Ymgynghorol gan swyddogion i sicrhau cysondeb yn yr asesu
4. Cyflwynwyd rhestr y Grŵp Ymgynghorol i sylw Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd

3.15. Roedd cyfanswm gofyn cynlluniau blaenoriaeth y Grŵp Ymgynghorol ar gyfer arian Lluosi/Multiply o fewn dyraniad Gwynedd (£1.2 miliwn / 41%) a'r gofyn am SPF Craidd yn gofyn am ran helaeth o ddyraniad Gwynedd (£19.5 miliwn / 94%).

3.16. Ar sail awgrymiadau'r Grŵp Ymgynghorol, dyma Panel Cronfa Ffyniant Cyffredin Gwynedd yn penderfynu:

- Gwahodd yr un cynllun cymwys yn dymuno arian Lluosi/Multiply i gyflwyno cais manwl (cynllun aml-sir).
- Gwahodd cyfanswm o 41 o'r cynlluniau yn dymuno arian SPF Craidd i gyflwyno cais manwl (23 cynllun yn dymuno gweithredu yng Ngwynedd yn unig ac 18 cynllun aml-sir); *gan ofyn i ymgeiswyr ailystyried a gostwng eu gofyn am arian SPF.*

3.17. Yn dilyn penderfyniadau'r Panel (a phenderfyniadau siroedd eraill perthnasol yn achos ceisiadau aml-sir), mae rhai cynlluniau wedi cyfuno neu addasu ac eraill wedi tynnu'n ôl. O ganlyniad 37 o gynlluniau sydd dan ystyriaeth ar gyfer ail gam y drefn ymgeisio.

3.18. 35 o geisiadau sydd i law. Mae dau gais aml-sir eto i'w cyflwyno yn dilyn penderfyniadau siroedd eraill, fydd y ceisiadau yma'n derbyn sylw yn unol â'r drefn wedi iddynt gael eu derbyn.

3.19. Dilynwyd y camau canlynol i ddewis a dethol o ymhlith y ceisiadau manwl[2]:

1. Gwiriwyd y ceisiadau gan Swyddogion y Cyngor gan roi sylw i:
   - Addasrwydd ac amgylchiadau'r ymgeisydd ynghyd â'u gallu
   - Manylion y cais a'r cynllun
   - Unrhyw oblygiadau rheoli cymhorthdal yn gysylltiedig â'r cais
   - Asesiad risg yr ymgeisydd
   - Risg y cynllun i'r Cyngor ac unrhyw fesurau fyddai'n anghrediniol i'w reoli
2. Adolygwyd sgorio'r cynlluniau yn erbyn y meini prawf cyhoeddedig gan Swyddogion y Cyngor i wirio eu bod yn parhau i weddu â dymuniadau'r Cyngor yn dilyn unrhyw addasiadau yn ystod paratoi'r ceisiadau manwl.
3. Lluniwyd argymhellion i sylw Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd

3.20. Adolygwyd yr argymhellion gan Banel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd gan herio'r cynlluniau unigol ac ystyried y pecyn o weithgaredd yn ei gyfanrwydd.

3.21. Casgliadau'r Panel yw penderfyniad i argymell cymeradwyo 34 o gynlluniau gan y Cabinet gan ymrwymo £1,224,276 o'r cyllid Lluosi/Multiply sydd ar gael i Wynedd ynghyd â £13,997,690 o'r cyllid SPF Craidd.

3.22. Mae Atodiad 1 yn rhestru'r cynlluniau argymhellir ynghyd a'r ymrwymiadau cyllidol ac mae Atodiad 2 yn cynnwys disgrifiad cryno o'r cynlluniau unigol.

## Cronfeydd Galluogi

3.23. Mae nifer o siroedd y Gogledd yn bwriadu sefydlu 'Cronfeydd Galluogi' er mwyn dethol symiau o dan £250,000 o arian SPF i fentrau a chymunedau lleol.

3.24. O drafod, dyma Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd yn argymell dylid sefydlu pedair Cronfa yng Ngwynedd gan adlewyrchu blaenoriaethau'r sir a'r meysydd gweithgaredd sydd yn gymwys ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin:

- Cronfa Cefnogi Adfywio - Cyngor Gwynedd i reoli
- Cronfa Cefnogi Diwylliant, Digwyddiadau a Byw'n Iach ac Actif (Cronfa Diwyllesiant) - Cyngor Gwynedd i reoli
- Cronfa Cefnogi Busnes - Cyngor Gwynedd i reoli

[2] Noder fod rhai cynlluniau aml-sir yn parhau i ddarparu manylion terfynol yn dilyn derbyn cadarnhad o ddymuniad siroedd eraill.

- Cronfa Cefnogi'r Sector Wirfoddol (Mantell Gwynedd i reoli)

3.25. Ar sail yr uchod, gyda chytundeb Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd, gwahoddwyd Cyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd i ddatblygu'r Cronfeydd gan ddarparu manylion llawn yn yr un modd a'r cynlluniau ddaeth ymlaen drwy law'r drefn gystadleuol. Mae'r cynigion wedi eu gwirio a'u hasesu yn unol â'r drefn amlinellwyd yn 3.18.

3.26. Mae'r Panel yn argymell i'r Cabinet ymrwymo £6,131,000 pellach o ddyraniad SPF Craidd i'r cronfeydd. Eto, mae Atodiad 1 yn rhestru'r ymrwymiadau cyllidol ac mae Atodiad 2 yn cynnwys disgrifiad cryno o'r cronfeydd unigol.

### Craffu'r maes gwaith cefnogi mentrau cymunedol / cymdeithasol

3.27. Mae'r broses o ddethol a dewis cynlluniau wedi amlygu i'r Panel yr angen i gynyddu dealltwriaeth y Cyngor o'r maes gwaith gefnogi mentrau cymunedol / cymdeithasol. I'r perwyl argymhellir gofyn i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gynnal ymchwiliad i'r maes i sicrhau fod ymdrechion sefydliadau yn cydweddau ac yn ategu ei gilydd.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIADAU

4.1. Mae'r cynlluniau unigol ynghyd â'r Cronfeydd Galluogi yn cynnig pecyn cynhwysfawr o ymyriadau sydd yn ymarferol o ystyried y cyfnod byr sydd ar gael ar gyfer cyflawni.

4.2. Mae'r pecyn o 38 o gynlluniau yn cynnwys 9 o gynlluniau fydd yn gweithredu ar draws fwy nac un o siroedd y Gogledd ble mae hynny'n dod a buddion ehangach o ran canlyniadau ac arbedion yng nghostau gwireddu.

### Canlyniadau disgwyliedig

4.3. Er gwaetha'r cyfyngiadau ymarferol, rhagwelir bydd y pecyn gweithgaredd yn cyflawni canlyniadau sylweddol i drigolion a chymunedau'r gan gynnwys:

- Darparu cymorth ariannol i 961 o fusnesau, mentrau a sefydliadau'r sir
- Cefnogi 400 o drigolion lleol i wella eu sgiliau rhifedd
- Helpu 3.100 o gartrefi i arbed ynni
- Cefnogi creu neu ddiogelu 292 o swyddi yn y sir
- Helpu 728 o bobl Gwynedd sicrhau cymhwyster
- Cynorthwyo 172 o drigolion lleol gyda heriau iechyd i ddychwelyd i waith

### Deddf Cydraddoldeb 2010

4.4. Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Deddf Cydraddoldeb 2010 yma, wrth wneud penderfyniadau, mae rhaid dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig. Gan fod yr argymhelliad yn disgyn o fewn penderfyniadau all eu hystyried yn strategol, mae dyletswydd i roi sylw dyledus i weithredu mewn modd sydd wedi ei ddylunio i leihau anghydraddoldebau sydd yn deillio o anfantais "socio economaidd. Mae gofyn i bob ymgeisydd gynnal asesiad cydraddoldeb (yn cynnwys effaith ar y Gymraeg) o'r cynllun wedi bod yn ran o ail gam y drefn ymgeisio ac bydd yn ffurfio rhan o'r cytundeb ariannu.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

4.5. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda cymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Roedd gofyn i bob ymgeisydd ddangos fod eu cynlluniau yn gydweddu gyda egwyddorion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru ) o fewn rhan gyntaf o'r broses ymgeisio. Gan ddal sylw at y cyd destun, mae'r argymhellion yn gydnaws â'r dyletswyddau yma.

4.6. Bydd monitro perfformiad cynlluniau yn erbyn y Deddf Llesiant a chynnal asesiad effaith yn rhan o drefniadau rheoli'r rhaglen.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. Wedi cadarnhau penderfyniad y Cabinet, rhyddhau cytundebau ariannu i'r ymgeiswyr yn cynnwys amodau arbennig os yn briodol i warchod buddiannau'r Cyngor.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1. Mae'r cynigion fel a'u hamlinellir yn yr adroddiad wedi cynnwys ymgynghori drwy law Grŵp Ymgynghorol Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd.

6.2. Sylwadau'r Swyddog Monitro:

*"Mae'r argymhellion yn deillio o broses asesu manwl i sefydlu y rhestr o gynlluniau all gyfarch ofynion y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Fe esbonnir yn yr adroddiad fod hyn wedi digwydd yn unol a'r drefn a fabwysiadwyd*

*gan y Cabinet yn Ionawr 2023. Roedd y cylch gorchwyl, yma yn gadael y drws yn agored i'r Panel gyfeirio y mater i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Bwriad yr adroddiad yw gofyn, yn briodol i'r Cabinet i gymeradwyo y cynigion.*"

6.3. Sylwadau'r Pennaeth Cyllid:

*"Credaf fod cyfiawnhad i'r penderfyniad a geisir ac rwyf yn cefnogi cynnwys yr adroddiad. Rwyf yn fodlon fod y camau sydd wedi eu cymryd i ddod at y rhestr derfynol sy'n ymddangos yn yr atodiadau yn dryloyw a chadarn, a gallaf gadarnhau cywirdeb y ffigyrau ariannol sy'n ymddangos yn yr adroddiad. Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn dyraniad digonol i ariannu'r cynlluniau sydd wedi eu rhestru, a'r prif risg ariannol yw gallu cwblhau'r cynlluniau mewn cyfnod mor fyr.*"

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Gorffennaf 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr |
| **Teitl yr Eitem:** | Pennaeth Cynorthwyol Trafnidiaeth |

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Fod y Cyngor yn rhyddhau £265,000 o'r gronfa trawsffurfio i gyllido swydd Pennaeth Cynorthwyol Trafnidiaeth am gyfnod o 3 blynedd i gychwyn.

### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Yn unol â'r drefn i gymeradwyo gwariant o'r Gronfa Trawsffurfio, mae gofyn i unrhyw gais i'r gronfa sydd uwchlaw £100,000 dderbyn cymeradwyaeth ffurfiol y Cabinet.

### 3. CYFLWYNIAD A RHESYMEG

3.1 O ganlyniad i adolygiad rheolaethol, bu i swydd Uwch Reolwr Trafnidiaeth gael ei ddiddymu yn 2019, a'r teimlad ar y pryd oedd y dylid ceisio ymdopi heb y rôl.

3.2 Ers hynny, mae'r maes wedi tyfu ac mae'r pwysau a galw ar yr adran wedi cynyddu.

3.3 Mae'r math o faterion sy'n creu pwysau ar yr adran yn y maes trafnidiaeth yn cynnwys:

a) **Coridor Gwyrdd Ardudwy**
"Coridor Gwyrdd Ardudwy" yw'r pecyn o welliannau i hyrwyddo teithio llesol a theithio gwyrdd, ar hyd coridor y A496, o Landecwyn i Bermo. Amcan y Cynllun yw gwella'r mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus (bysiau a threnau) ym Meirionnydd, gwella diogelwch a rheolaeth traffig ym mhentref Llanbedr a datblygu isadeiledd er mwyn uchafu ar botensial economaidd, i'r ardal gyfan, o Faes Awyr Llanbedr i'r dyfodol. Mae'r gwaith hyn yn cynnwys datblygiad ffordd osgoi cyflymder isel Llanbedr.

b) **Teithio Llesol**
Fel un o'n blaenoriaethau strategol yng Nghynllun y Cyngor, mae'r Adran yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal rhwydwaith o lwybrau teithio llesol er mwyn hybu defnydd o feicio a cherdded ar hyd y Sir.

c) **Cludiant cyhoeddus a'r Cynllun argyfwng bysiau**
Mae'r Adran yn gyfrifol am gytundebau bysus y Sir, a darparu cludiant o ansawdd i drigolion Gwynedd mewn modd cost effeithiol a chynaliadwy. Gyda chynnydd sylweddol mewn costau tanwydd dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Adran wedi bod yn allweddol i drafodaethau gyda'r darparwyr gwasanaeth a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i redeg er yr her ac i weinyddu taliadau y cynllun argyfwng bysiau.

ch) **Adolygiad trafnidiaeth cyhoeddus**
Un o brosiectau strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf yw adolygu'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos. Fe fydd y cynllun yma hefyd yn cyflwyno bysiau trydan newydd.

d) **Cynllun 20mya**
Mae'r Adran yn gyfrifol am gyflwyno cyfyngiadau cyflymder 20mya mewn ardaloedd trefol, sydd yn dod i rym yng Nghymru ym mis Medi 2023. Mae'r gwaith i weithredu hyn yn golygu gwaith ymgynghori sylweddol a chyflwyno gorchmynion traffig.

dd) **Meysydd parcio a gorfodaeth parcio**
Yn ogystal â meysydd parcio cyhoeddus y Sir, yr Adran sydd yn ymdrin â cheisiadau am linellu melyn i oresgyn problemau parcio mewn mannau penodol. Fel y Cynllun 20mya, mae cyflwyno llinellau melyn yn broses statudol hirfaith. Gyda thwf mewn ymwelwyr i'r ardal ers cychwyn y cyfnod clo, mae'r ymholiadau y mae'r uned yn ei dderbyn wedi cynyddu yn sylweddol.

e) **Materion yn codi o adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth Cymru**
Mae'r adroddiad yn cyflwyno argymhellion er mwyn newid patrymau teithio yng ngogledd Cymru er mwyn lleihau allyriadau carbon o ganlyniad i deithio.

f) **Rhwydwaith gwefru cerbydau trydan**
Mae ein Cynllun Hinsawdd a Natur hefyd yn un o flaenoriaethau'r Cyngor ac wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r Adran yn arwain ar brosiect i ddatblygu'r rhwydwaith gwefru cerbydau trydan drwy'r Sir, sydd yn un o ffrydiau gwaith y Cynllun Hinsawdd a Natur ac yn hollbwysig i wydnwch isadeiledd y Sir ar gyfer cerbydau trydanol.

**ff) Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC) a'r cynllun trafnidiaeth rhanbarthol**
Disgwylir i'r Adran fod yn cydweithio a chyfrannu at ddatblygiadau'r CBC a chynllun trafnidiaeth rhanbarthol, sydd bellach yn ofyniad rhanbarthol yn unol â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021.

3.4 Yn ychwanegol i'r uchod, dros y ddwy flynedd diwethaf, rwyf wedi bod yn ymweld ag aelodau etholedig i drafod eu materion ward. Mae'r maes trafnidiaeth codi yn rheolaidd ac i nifer helaeth o aelodau, ar frig eu rhestr o flaenoriaethau. Mae'n faes sydd yn cyffwrdd â phawb ac mae wedi dod i'r amlwg fod twf sylweddol wedi bod yn y galw am y gwasanaethau.

3.5 Wrth ystyried sut mae'r maes yma wedi datblygu a'r adborth rwyf wedi ei dderbyn gan Aelodau etholedig am eu pryderon lleol, rwyf o'r farn bod angen buddsoddiad er mwyn gallu cyflawni mwy yn y meysydd yma. Mae'n amlwg erbyn hyn na fu'r arbrawf o geisio ymdopi heb y rôl hon yn llwyddiant, a'n bod yn hytrach wedi methu a chyflawni cymaint ag yr hoffem. Nid yw'n strwythur presennol, sydd â gagendor sylweddol rhwng rôl y pennaeth a rôl rheolwyr gwasanaeth, yn rhoi'r cyfle gorau i ni fanteisio ar gyfleon a chyflawni dyheadau'r Adran a'r Cyngor yn y maes pwysig hwn.

3.6 I'r perwyl hwn ac yn dilyn trafodaeth gyda'r Pennaeth Adran, rwyf wedi dod i'r casgliad fod angen sefydlu swydd Pennaeth Cynorthwyol i arwain y mae trafnidiaeth yn ei gyfanrwydd. Er mai cais am adnoddau dros dro yw pwrpas yr adroddiad hwn y bwriad yw adnabod ffynhonnell ariannu barhaol pan fydd y cyfle yn codi.

**4. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Barn y Swyddogion Statudol:

Y Swyddog Monitro:

*Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb*

Pennaeth Cyllid:

*Mae'r Gronfa Trawsffurfio yn ei le er mwyn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor. Mae cyfrifon drafft y Cyngor yn dangos fod £11.2m yn y gronfa ar 31 Mawrth 2023, ond mae'r rhan helaeth ohono eisoes wedi ei ymrwymo i amrywiol gynlluniau, gan gynnwys y bidiau un-tro ar gyfer 2023-24 a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 28 Mawrth 2023. Mae hyn yn golygu fod yna £4.3m yn y Gronfa Trawsffurfio heb ei ymrwymo ac ar gael i ariannu'r bid yma.*

*Felly, o safbwynt priodoldeb ariannol mae adnoddau digonol yn eu lle i ariannu'r swydd Pennaeth Cynorthwyol am dair blynedd, a mater i aelodau'r Cabinet fydd penderfynu os yw hyn yn flaenoriaeth ar gyfer defnydd y Gronfa.*